



Cyfnod Allweddol 4

Trin Haint: Defnyddio Gwrthfotigau ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd

Gwers 8: Defnyddio Gwrthfotigau ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd

Gwers ragarweiniol i wrthfotigau a'u defnydd. Mae'r wers hon yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r bygythiad cynyddol byd-eang i iechyd y cyhoedd yn sgil ymwrthedd gwrthficrobaidd (antimicrobial resistance neu AMR) drwy arbrawf platiau agar.

Deilliannau Dysgu

Bydd pob myfyrwr yn:

- Deall nad yw gwrthfotigau'n gweithio ar firsau, gan fod gan facteria a firsau strwythurau gwahanol.
- Deall bod bacteria yn addasu'n barhaus i ddatblygu ffyrdd o beidio â chael eu lladd gan wrthfotigau, gelwir hyn yn ymwrthedd i wrthfotigau.
- Deall bod cymryd gwrthfotigau hefyd yn effeithio ar eich bacteria defnyddiol, nid dim ond y rhai sy'n achosi haint.
- Deall y gall bacteria sy'n gwrthsefyll gwrthfotigau gael eu cario gan bobl iach neu sâl a'u trosglwyddo i eraill heb yn wybod.

- Deall bod ymwrthedd i wrthfotigau yn ymledu rhwng gwahanol facteria o fewn ein corff.
- Deall bod rheoli ymwrthedd i wrthfotigau yn gyfrifoldeb i bawb, gan gynnwys chi

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd/Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- Iechyd ac atal salwch

Gwyddoniaeth

- Meddylfryd gwyddonol
- Sgiliau a strategaethau arbrolfol
- Dadansoddi a gwerthuso

Saesneg

- Darllen
- Ysgrifennu

Celf a Dylunio

- Cyfathrebu graffeg



Gwers 8: Defnyddio Gwrthfotigau ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd

Yr Adnoddau sydd eu Hangen

Prif Weithgaredd: Arbrawf Agar

Ar gyfer pob myfyriwr

- Copi o SW1
- Copi o SW2
- Copi o SW3
- Menig

Ar gyfer pob dosbarth/grŵp

- Copi o TS2
- Dysglau Petri
- Agar Sylfaenol
- Plât poeth
- Ffenol Coch*
- Creon cwyr/marciwr
- Diferyddion tafladwy
- Asid hydroclorig
- Tyllwr Corcyn
- 20 Tiwb profi
- Rhesel tiwbiau profi

Deunyddiau Ategol Ychwanegol:

- Copi o TS1
- Copi o SH1

Gweithgaredd 2: Gwrthfotigau 'Cywir' neu 'Anghywir'?

Ar gyfer pob myfyriwr

- Copi o SW4

Deunyddiau Ategol

- TS1 Gwaith Paratoi Ymlaen Llaw ar gyfer yr Arbrawf Agar
- TS2 Taflen Atebion i Athrawon
- SH1 Canlyniadau Prawf Sensitifrwydd Gwrthfotig
- SW1 Taflen waith Arbrawf Agar
- SW2 Casgliadau Arbrawf Agar
- SW3 Casgliadau Arbrawf Agar Gwahaniaethol
- SW4 Gwrthfotigau Cywir neu Anghywir

Gwaith Paratoi Ychwanegol

1. Dilyn y cyfarwyddiadau yn TS1 i baratoi ar gyfer arbrawf Agar
2. Argraffu SW1 a SW2 neu SW3 (fersiwn gwahaniaethol y gellir ei addasu ar gyfer myfyrwyr o alluoedd gwahanol) ar gyfer pob myfyriwr ymlaen llaw
3. Fideos gwrthfotig: Cyflwyniad i Wrthfotigau antibioticguardian.com NEU <https://youtu.be/HN5ultN7JaM>
4. Animeiddiad Gwrthfotigau e-bug.eu/eng/KS4/lesson/Antibiotic-AntimicrobialResistance Copi o SW1 a SW2 ar gyfer pob myfyriwr.



Gwers 8: Defnyddio Gwrthfotigau ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd

Geiriau Allweddol

Gwrthfotig
Ymwrthedd gwrthficrobaidd
System imiwedd
Haint
Moddion
Detholiad naturiol
Stiwardiaeth

Iechyd a Diogelwch

I gael gwybodaeth am arferion microbiolegol diogel yn yr ystafell ddosbarth edrychwch ar wefan CLEAPPS

www.cleapps.org.uk

Dolenni gwe

e-bug.eu/eng/KS4/lesson/Antibiotic-Antimicrobial-Resistance

Cyflwyniad

1. Eglurwch fod y myfyrwyr yn mynd i ddysgu sut mae gwrthfotigau'n gweithio i ladd bacteria a sut mae'r bacteria'n ymladd yn ôl ac yn dod yn datblygu ymwrthedd i'r gwrthfotigau. Mae ymwrthedd i wrthfotigau yn dod yn fygythiad iechyd byd-eang a gall effeithio ar bawb - gall bacteria sydd ag ymwrthedd i wrthfotigau ledaenu'n hawdd o berson i berson. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau bod gwrthfotigau'n cael eu defnyddio'n gywir.
2. Dangoswch y Fideo Cyflwyniad i Wrthfotigau 2-funud i'r myfyrwyr.
3. Nesaf, gwyliwch yr animeiddiad e-Bug. Drwy gydol yr animeiddiad mae yna bwyntiau lle bydd modd i athrawon oedi a thrafod y cynnwys gyda'r myfyrwyr.
4. Tynnwch sylw at y ffaith bod darganfod gwrthfotigau newydd wedi arafu ac eglurwch nad yw llawer o gwmnïau fferyllol bellach yn gwario arian i ddatblygu gwrthfotigau newydd, er gwaethaf y broblem gynyddol o ymwrthedd.

Gweithgaredd

Prif Weithgaredd: Arbrawf Agar

1. Dylid cynnal y gweithgaredd hwn mewn grwpiau bach (3 – 5 myfyriwr).
2. Dylid trefnu mainc waith ar gyfer pob grŵp yn cynnwys:
 - a. 4 plât meithrin agar gyda dangosydd, pob un wedi'i labelu ag enw claf.
 - b. 4 rhesel tiwbiau profi, pob un yn cynnwys 5 hydoddiant gwrthfotig (cyfeiriwch at y canllawiau yn TS1), pob un wedi'i osod wrth ymyl ei blât agar cyfatebol.
3. Rhowch gopi o SW1 a SW2 neu SW3 (fersiwn wahaniaethol) i'r myfyrwyr i gofnodi eu canlyniadau.
4. Eglurwch fod Eva yn gweithio mewn labordy ysbyty a'i gwaith hi yw tyfu meithriniadau microbaidd o swabiau a gymerwyd gan gleifion mewn meddygfa. Yna mae Eva yn profi a yw'r microbau'n cael eu lladd gan ystod o wrthfotigau. Mae'r canlyniadau'n helpu'r meddyg i benderfynu pa ficrob sy'n achosi'r salwch a pha wrthfotigau, os o gwbl, i'w rhagnodi.
5. Tynnwch sylw at y ffaith bod y lliw coch yn cynrychioli'r microbau sy'n tyfu yn yr agar; gallai fod o gymorth yma i ddangos plât agar iddynt heb unrhyw ddangosydd (melyn), h.y. dim tyfiant.
6. Rhowch y platiau ar ddalen o bapur gwyn. Dylai'r myfyrwyr labelu pob twll turio a gollwng gwrthfotigau, un diferyn ar y tro, i'r twll sydd â'r label priodol arno nes bod y twll wedi'i lenwi â'r gwrthfotig.
7. Rhowch gaead ar y ddysgl Petri a'i gadael am 5 munud.
8. Ar ôl 5 munud, dylai'r myfyrwyr fesur maint yr ardal sydd wedi dadliwio (ataliad) os yw'n bresennol. Efallai y byddwch am ddangos SH1 i'r myfyrwyr er mwyn dangos y canlyniadau disgwylidig.

9. Dylai'r myfyrwyr gwblhau eu taflenni gwaith (SW1, 2 neu 3) mewn grwpiau a thrafod gyda'r athro.

Gweithgaredd 2 - Gwrthfotigau 'Cywir' neu 'Anghywir'?

Defnyddiwch y daflen waith 'cywir neu anghywir' a ddarparwyd i ddysgu sut i gymryd gwrthfotigau yn gywir. Rhowch gopi o'r daflen waith (SW4) i bob myfyriwr. Ar gyfer pob datganiad, trafodwch gyda'r grŵp a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir a'r rhesymau pam, fel y nodir isod.

Datganiad 1: Anghywir

Mae'r heintiau mwyaf cyffredin sy'n achosi peswch a thisian yn cael eu hachosi gan firysau a byddant yn gwella ar eu pen eu hunain drwy orffwys ac yfed digon. Nid yw gwrthfotigau yn effeithiol yn erbyn firysau.

Datganiad 2: Cywir

Dylid cymryd gwrthfotigau yn union fel y cynghorir gan eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Datganiad 3: Anghywir

Ni ddylech ddefnyddio gwrthfotigau pobl eraill nac unrhyw wrthfotigau dros ben.

Datganiad 4: Cywir

Mae'r heintiau mwyaf cyffredin sy'n achosi peswch a thisian yn cael eu hachosi gan firysau a byddant yn gwella ar eu pen eu hunain drwy orffwys ac yfed digon. Nid yw gwrthfotigau yn effeithiol yn erbyn firysau.

Datganiad 5: Anghywir

Gall gwrthfotigau helpu heintiau bacteriol difrifol fel niwmonia neu heintiau'r arenau/troeth.

Datganiad 6: Anghywir

Dylid cymryd gwrthfotigau yn union fel y cynghorir gan eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Datganiad 7: Anghywir

Nid yw gwrthfotigau yn effeithiol ar gyfer cur pen neu firysau, fel yr un sy'n achosi'r ffliw.

Datganiad 8: Cywir

Os byddwch yn gorddefnyddio gwrthfotigau efallai na fyddant yn gweithio pan fyddwch wir eu hangen ar gyfer haint difrifol.

Trafodaeth

Trafodwch y cwestiynau ar daflen waith y myfyriwr (SW2/3) gyda'r dosbarth:

Nid yw gwrthfotigau'n gwella annwyd neu'r fflw, beth ddylai'r meddyg ei argymhell neu ei ragnodi i glaf er mwyn iddo wella?

Ateb: Dim ond heintiau bacteriol y gall gwrthfotigau eu trin ac mae'r fflw yn cael ei achosi gan firws. Firysau sy'n achosi peswch ac annwyd ac mewn llawer o achosion bydd amddiffynfeydd naturiol y corff ei hun yn brwydro yn erbyn yr heintiau hyn. Mae meddyginiaethau eraill gan y fferyllydd yn helpu gyda symptomau peswch ac annwyd. Gall meddygon ragnodi cyffuriau lleddfu poen i helpu i leihau'r boen a'r dwymyn sy'n gysylltiedig â'r haint.

Ateb gwahaniaethol: b

Beth fyddai'n digwydd pe bai gwrthfotig yn cael ei roi i glaf i drin haint bacteriol, ond bod gan y bacteria ymwrthedd i'r gwrthfotig hwnnw?

Ateb: Dim byd, ni fyddai'r gwrthfotig yn gallu lladd y bacteria sy'n achosi'r salwch felly ni fyddai'r claf yn gwella.

Ateb gwahaniaethol: a

Pe bai gennych chi rywfaint o dabledi Penisilin yn weddill yn eich cwpwrdd ar ôl i chi gael dolur gwddf, a fydech chi'n eu cymryd yn ddiweddarach i drin briw wedi'i heintio ar eich coes? Eglurwch eich ateb.

Ateb: Na, ni ddylech byth ddefnyddio gwrthfotigau pobl eraill neu rai a ragnodwyd ar gyfer haint blaenorol. Mae yna lawer o wahanol fathau o wrthfotigau sy'n trin gwahanol heintiau bacteriol. Mae meddygon yn rhagnodi gwrthfotigau penodol ar gyfer salwch penodol ac ar ddos sy'n addas i'r claf. Gall cymryd gwrthfotigau rhywun arall olygu na fydd eich haint yn gwella.

Ateb gwahaniaethol: a

Nid yw claf eisiau cymryd gwrthfotig a gafodd ar gyfer clwyf wedi'i heintio.

Mae'n dweud: 'Fe wnes i gymryd mwy na hanner y tabledi a roddodd y doctor i mi o'r blaen ac fe ddiflannodd yr haint am ychydig ond daeth yn ôl yn waeth.'

Allwch chi egluro pam y digwyddodd hyn?

Ateb: Mae'n bwysig iawn gorffen cwrs o wrthfotigau, nid stopio hanner ffordd drwodd. Gallai peidio â chwblhau'r cwrs olygu na fydd yr holl facteria'n cael eu lladd a gallent ddatblygu ymwrthedd i'r gwrthfotig yn y dyfodol.


Ateb gwahaniaethol: c

Trafodwch gyda'r dosbarth:

1. Eu dealltwriaeth o ymwrthedd i wrthfotigau.

2. Gofynnwch pa facteria ymwrthol y maen nhw wedi clywed amdanynt? Disgrifiwch *Staphylococcus aureus* sydd ag ymwrthedd i Fethisiln a thwberwcwlos fel dwy enghraifft:

- Mae *Staphylococcus aureus* (MRSA) yn straen bacteriol sydd ag ymwrthedd i wrthfotigau beta-lactam, flucloxacillin a cephalosporin. Gall fod yn anodd iawn trin heintiau MRSA. Mae heintiau MRSA yn fwy cyffredin ymysg pobl mewn ysbytai neu leoliadau gofal, ond gallant hefyd ddigwydd yn y gymuned. Mae cyfraddau MRSA wedi gostwng yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, oherwydd ymwybyddiaeth gynyddol, ymdrechion i fynd i'r afael â rheoli heintiau mewn ysbytai e.e. golchi dwylo'n drylwyr a swabio cleifion, a gostyngiad yn y defnydd o wrthfotigau sbectrwm eang. Yn 2006, adroddwyd bod gan 1.8% o gleifion ysbyty MRSA a gostyngodd hyn i 0.1% yn 2012.



Mae'r ffigur uchod yn dangos y gostyngiad yng nghyfraddau bacteremia (bacteria yn y gwaed) MRSA o 8.8 o achosion a gofnodwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2007/8 i 1.6 o achosion a gofnodwyd fesul 100,000 yn 2013/14. Daw'r data hwn o'r ddogfen Annual Epidemiology Commentary 2013/14. gan Public Health England.

- Gelwir rhai mathau o dwbercwlosis (TB) sydd ag ymwrthedd i wrthfotigau yn dwbercwlosis ag ymwrthedd i'r prif gyffuriau (MDR-TB). Mae gan straeniau hyn ymwrthedd i'r ddau wrthfotig a ddefnyddir amlaf i drin TB. O 2013 ymlaen, mae 3.6% o achosion newydd o dwbercwlosis yn cael eu hachosi gan MDR-TB. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod bron i 0.5 miliwn o achosion MDR-TB newydd yn y byd yn 2012. Gall cyfradd marwolaethau MDR-TB fod hyd at 80% ac mae'r cyffuriau a ddefnyddir i drin MDR-TB yn ddrutach na'r rhai a ddefnyddir i drin TB a gallant gael sgil-ffeithiau mwy andwyol. I drin TB yn dda mae angen i chi gymryd 2, 3 neu 4 gwrthfotig ar unwaith. Mae peidio â'u cymryd yn gywir (oherwydd diffyg cyllid ar gyfer triniaeth neu wrthfotigau ffug) wedi arwain at fwy o ymwrthedd, felly mae bellach wedi dod yn broblem fawr.

Gweithgaredd Estyn

Gweithgaredd Estyn: Ysgrifennu Traethawd

1. Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu traethawd yn seiliedig ar y neges o animeiddiad gwrthfotigau e-Bug a'r camsyniadau cyffredin y maent wedi dysgu amdanynt yn ystod y wers.
2. Dylent ystyried y pwyntiau canlynol:
 - a. Beth yw'r camsyniadau mwyaf cyffredin ynghylch gwrthfotigau a pham y gallai fod cymaint o gamddealltwriaeth?
 - b. Sut y byddai mynd i'r afael â chamsyniadau cyffredin ynghylch gwrthfotigau yn helpu i arafu neu atal y cynnydd mewn ymwrthedd?
 - c. Pa ddulliau y dylid eu defnyddio i fynd i'r afael â chamsyniadau?
 - d. Gellir cynnwys profiadau personol, teulu neu ffrindiau o wrthfotigau hefyd, er enghraifft pam y cymerwyd gwrthfotigau ac os oedd y defnyddiwr yn meddwl y gallent fod wedi bod yn ddiangen. Beth fyddai wedi helpu yn y sefyllfa hon?

Atgyfnerthu'r Hyn a Ddysgwyd

Gwiriwch bod y myfyrwyr yn deall drwy ofyn iddyn nhw a yw'r datganiadau a ganlyn yn wir neu'n anwir.

1. **Nid yw gwrthfotigau'n gweithio ar firysau, gan fod gan facteria a firysau strwythurau gwahanol.**
Ateb: Gwir
2. **Mae bacteria'n addasu'n barhaus i ddatblygu ffyrdd o beidio â chael eu lladd gan wrthfotigau, gelwir hyn yn addasiad gwrthfotig.**
Ateb: Anwir, fe'i gelwir yn ymwrthedd i wrthfotigau.
3. **Gall bacteria a chanddynt ymwrthedd i wrthfotigau gael eu cario gan bobl iach neu sâl a gellir eu trosglwyddo'n dawel i eraill.**
Ateb: Gwir



Gwaith Paratoi Ychwanedol

Mae'r gwaith paratoi canlynol ar gyfer 1 grŵp o 5 myfyriwr

I wel llun o fainc waith, ewch i www.e-bug.eu

Deunyddiau

- | | | |
|---|---|---|
| <input type="checkbox"/> Dysglau Petri | <input type="checkbox"/> 20 Tiwb profi | <input type="checkbox"/> 5 Rhesel tiwbiau profi |
| <input type="checkbox"/> Asid hydroclorig | <input type="checkbox"/> Diferyddion tafladwy | <input type="checkbox"/> Tyllwr Corcyn |
| <input type="checkbox"/> Creon cwyr/marciwr | <input type="checkbox"/> Plât boeth | <input type="checkbox"/> Ffenol Coch |

Paratoi Platiau Agar

1. Gwnewch 100ml o agar sylfaenol gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
2. Ar ôl ei oeri ychydig, ond cyn iddo droi'n solet, arllwyswch i 1 plât agar (i ddangos dim tyfiant). Pan fydd wedi'i gwblhau, ychwanegwch ddigon (~10 diferyn) 2 – 4% o Ffenol Coch i droi'r agar yn goch dwfn/oren tywyll a'i gymysgu'n dda.
3. Arllwyswch tuag 20ml i bob dysgl Petri a gadewch iddynt oeri.
4. Ar ôl iddynt droi'n soled, gwnewch 5 twll turio â bylchau cyfartal rhyngddynt ym

Paratoi gwrthfotigau (tiwbiau profi).

Claf	Penisilin	Metisilin	Erythromycin	Vancomycin	Amoxicillin
A	Dŵr	Dŵr	Dŵr	Dŵr	Dŵr
B	10% HCl	5% HCl	1% HCl	0.05% HCl	5% HCl
C	Dŵr	Dŵr	1% HCl	0.05% HCl	Dŵr
Ch	Dŵr	0.05% HCl	0.05% HCl	0.05% HCl	Dŵr

1. Gosodwch resel tiwbiau profi gyda 5 tiwb profi ar gyfer pob claf. Labelwch bob tiwb profi gydag un o'r labeli canlynol
 - a. Penisilin
 - b. Metisilin
 - c. Oxacillin
 - ch. Vancomycin
 - d. Amoxicillin
2. Trosglwyddwch 5ml o'r hydoddiannau canlynol i'r tiwb profi sydd wedi'i labelu'n briodol

DS: Mae'n hynod bwysig cael y crynodiadau cywir o HCl (gwrthfotigau) ar gyfer pob claf
3. Trefnwch fainc waith ar gyfer y grŵp fel a ganlyn:
 - a. Rhewch blât agar y claf priodol wrth ymyl pob rhesel cyfatebol o diwbiau profi mewn 4 gorsaf ar y fainc
 - b. Darparwch ddiferydd ar gyfer pob tiwb profi
 - c. Pren mesur gyda marciau mm
 - d. Efallai y bydd yn haws i fyfyrwyr roi plât agar pob claf ar ddarn o bapur gwyn a labelu'r papur wrth ymyl pob twll turio gydag enw'r gwrthfotig.



Arbrawf Agar: Taflen Atebion i Athrawon


Canlyniadau Platiau Agar

Claf	Penisilin	Metisilin	Erythromycin	Vancomycin	Amoxicillin	Diagnosis
A	Na	Na	Na	Na	Na	Ffliw
B	Ie	Ie	Ie	Ie	Ie	Haint ar y Gwddf
D	Na	Ie	Ie	Ie	Na	Haint clwyf Saffylococws
Ch	Na	Na	Na	Ie	Na	MRSA

Esboniad o Ganlyniadau Platiau Agar

Mae Ie yn golygu Sensitif – ardal dim tyfiant i'w

Mae Na yn golygu Ddim yn Sensitif – dim




Claf A:

Mae'r ffliw yn cael ei achosi gan firws felly ni fydd unrhyw un o'r gwrthfotigau yn cael effaith gan mai dim ond ar heintiau bacteriol y gellir defnyddio gwrthfotigau.

Claf B:

Mae heintiau dolur gwddf yn eithaf cyffredin ac yn gwella ar eu pen eu hunain yn gyffredinol. Mewn achosion difrifol, bydd y rhan fwyaf o wrthfotigau yn trin yr haint hwn. Penisilin yw'r gwrthfotig gorau ar gyfer yr haint hwn gan nad yw'r grŵp o facteria sy'n gyfrifol am yr haint (*Streptococws*) wedi datblygu mecanwaith ymwrthedd eto. Ni ddylid rhoi gwrthfotigau yn ddiangen ar gyfer dolur gwddf ysgafn gan fod 80% o ddolur gwddf yn cael ei achosi gan firysau a gall bacteria eraill ddatblygu ymwrthedd yn ystod triniaeth.






Arbrawf Agar: Taflen Atebion i Athrawon

Esboniad o Ganlyniadau Platiau Agar


Claf C:

Mae heintiau *Staphylococcus aureus* (MRSA) sydd ag ymwrthedd i Fethisilin yn dod yn fwyfwy anodd eu trin. Mae'r bacteria *S.aureus* hyn wedi datblygu ymwrthedd i Fethisilin, y gwrthfotig blaenorol a ffafriwyd. Vancomycin yw un o'r amddiffyniadau olaf yn erbyn y bacteria hyn a allai fod yn angheuol, fodd bynnag mae rhai organebau wedi'u canfod ac mae ganddynt hefyd ymwrthedd amlwg i hyn.




Claf Ch:

Penicilin oedd y gwrthfotig cyntaf a ddarganfuwyd ac a gynhyrchwyd, yn anffodus roedd llawer o bobl yn ei ystyried yn 'gyffur gwyrthiol' ac yn ei ddefnyddio i drin llawer o heintiau cyffredin. Arweiniodd hyn at y mwyafrif o facteria *Staphylococws* yn datblygu ymwrthedd i'r gwrthfotig hwn yn gyflym. Gan fod ampicillin yn deillio o benicilin, mae gan y bacteria *Staphylococcus* ymwrthedd i hyn hefyd. Methisilin yw'r cyffur a ffefrir ar gyfer yr haint *Staphylococcus* sensitif hwn.




SH1 - Canlyniadau Prawf Sensitifrwydd Gwrthfotig


Canlyniadau Prawf Sensitifrwydd




Claf A



Claf B



Claf C



Claf Ch





Taflen Waith Arbrawf Agar: Y canlyniadau

Mae Eva ar leoliad gwaith dros r haf yn y labordy ysbyty lleol.

Ei gwaith hi yw darllen canlyniadau'r profion a llenwi'r gwaith papur. Mae Eva wedi methu rhai o ganlyniadau'r profion.

Claf	Penisilin	Metisilin	Erythro-mycin	Vancomycin	Amoxicillin	Diagnosis
	Na	Na	Na	Na	Na	Ffliw
	le	le	le	le	le	Haint ar y Gwddf
	Na	le	le	le	Na	<i>Haint clwyf Saffylococws</i>
	Na	Na	Na		Na	MRSA

Mae le yn golygu Sensitif – ardal dim tyfiant i'w gweld

✘ Mae Na yn golygu Ddim yn Sensitif – dim ardal tyfiant i'w gweld

Mae hi wedi meithrin yr organeb heintus a gymerwyd oddi wrth bob un o'r cleifion ar blatiau agar ac wedi nodi'r diagnosis.

A allwch ailadrodd y prawf sensitifrwydd gwrthfotig a pharu'r claf â'r canlyniadau?

SW1 - Taflen Waith Arbrawf Agar - Rhan B



Taflen Waith Arbrawf Agar: Y canlyniadau

Yn yr adran canlyniadau isod, cofnodwch ganlyniadau eich prawf sensitifrwydd a nodwch y gwrthfotig a byddech chi'n argymhell i'r meddyg ei ragnodi.

Claf A _____

Y Ffliw (<i>Feirws y ffliw</i>)	Parth Ataliad Maint (mm)
Penisilin	
Metisilin	
Erythromycin	
Vancomycin	
Amoxicillin	

Gwrthfotig a argymhellir

Claf B _____

Haint ar y Gwddf Streptococws	Parth Ataliad Maint (mm)
Penisilin	
Metisilin	
Erythromycin	
Vancomycin	
Amoxicillin	

Gwrthfotig a argymhellir

Claf C _____

MRSA (Metisilin Gwrthiannol <i>Stafylcocws awrews</i>)	Parth Ataliad Maint (mm)
Penisilin	
Metisilin	
Erythromycin	
Vancomycin	
Amoxicillin	

Gwrthfotig a argymhellir

Claf Ch _____

Clwyf Staff Haint Stafylcocws awrews	Parth Ataliad Maint (mm)
Penisilin	
Metisilin	
Erythromycin	
Vancomycin	
Amoxicillin	

Gwrthfotig a argymhellir



Taflen Waith Arbrawf Agar

i Fyfyrrwyr: Casgliadau

1. Nid yw gwrthfotigau'n gwella annwyd neu'r ffliw, beth ddylai'r meddyg ei argymhell neu ei ragnodi i glaf A er mwyn iddo wella?

2. Arferwyd defnyddio Methisilin i drin haint Staffylococws, beth fyddai'n digwydd i haint Claf C pe bai Methisilin yn cael ei ragnodi iddo?

3. Pe bai gennych chi rywffaint o dabledi amoxicillin yn weddill yn eich cwpwrdd o haint blaenorol ar y frest, a fydech chi'n eu cymryd yn ddiweddarach i drin briw wedi'i heintio ar eich coes? Eglurwch eich ateb.

4. Nid yw claf Ch eisiau cymryd y flucloxacillin a ragnodwyd iddo ar gyfer briw wedi'i heintio.

"Fe wnes i gymryd mwy na hanner y tabledi a roddodd y doctor i mi o'r blaen ac fe ddiflannodd am ychydig ond daeth yn ôl yn waeth."

Allwch chi egluro pam y digwyddodd hyn?



Taflen Waith Arbrawf Agar

i Fyfyrrwyr: Casgliadau

1. Nid yw gwrthfotigau'n gwella annwyd neu'r fflw, beth ddylai'r meddyg ei argymhell neu ei ragnodi i glaf A er mwyn iddo wella?
A) Gellir defnyddio gwrthfotigau i drin heintiau firysol, dylai'r meddyg ragnodi gwrthfotigau.
B) Dim ond ar gyfer trin heintiau bacteriol y gellir defnyddio gwrthfotigau; mae'r annwyd neu'r fflw yn cael ei achosi gan firws. Dylai'r meddyg ragnodi meddyginiaethau i helpu gyda'r symptomau.
C) Dylai'r meddyg ragnodi cyffuriau gwrth-ffwng.
2. Arferwyd defnyddio Methisilin i drin haint Staffylococws, beth fyddai'n digwydd i haint Claf C pe bai Methisilin yn cael ragnodi iddo?
A) Dim byd. Mae gan MRSA ymwrthedd i wrthfotigau.
B) Byddai Claf C wedi gwella; byddai eu haint wedi diflannu.
3. Pe bai gennych chi rywfaint o dabledi amoxicillin yn weddill yn eich cwpwrdd o haint blaenorol ar y frest, a fydech chi'n eu cymryd yn ddiweddarach i drin briw wedi'i heintio ar eich coes? Eglurwch eich ateb.
A) Na, ni ddylech byth ddefnyddio gwrthfotigau pobl eraill neu rai a ragnodwyd ar gyfer haint blaenorol. Mae yna lawer o wahanol fathau o wrthfotigau sy'n trin gwahanol heintiau bacteriol. Mae meddygon yn rhagnodi gwrthfotigau penodol ar gyfer salwch penodol ac ar ddos sy'n addas i'r claf. Gall cymryd gwrthfotigau rhywun arall olygu na fydd eich haint yn gwella.
B) Na, dylech gael meddyginiaeth newydd.
C) Ie.
4. Nid yw claf Ch eisiau cymryd y flucloxacillin a ragnodwyd iddo ar gyfer briw wedi'i heintio.

"Fe wnes i gymryd mwy na hanner y tabledi a roddodd y doctor i mi o'r blaenac fe ddiflannodd am ychydig ond daeth yn ôl yn waeth." Allwch chi egluro pam y digwyddodd hyn?

A) Ni ddylai claf Ch fod wedi cymryd ei feddyginiaeth.
B) Dylai claf Ch fod wedi cymryd un bilsen yn unig.
C) Mae'n bwysig iawn gorffen cwrs o wrthfotigau, nid stopio hanner ffordd drwodd. Gallai peidio â chwblhau'r cwrs olygu na fydd yr holl facteria'n cael eu lladd a gallent ddatblygu ymwrthedd i'r gwrthfotig yn y dyfodol.



Gwrthfotigau Cywir neu Anghywir!

Trafodwch pa rai o'r datganiadau hyn sy'n gywir neu'n

1 Roedd yn pesychu ac yn tisian ym mhob man. Byddech wedi meddwl y byddai'r meddyg wedi rhoi gwrthfotigau iddo!

2 Dywedodd fy meddyg wrthyf i gymryd fy ngwrthfotigau am 5 diwrnod felly dyna beth wnes i.

3 Pan oedd fy ffrind yn sâl, rhoddais fy hen iddi wrthfotigau iddi. Rwy'n hoffi helpu fy ffrindiau.

4 Nid yw gwrthfotigau yn helpu peswch ac annwyd; y cyfan sydd ei angen arnat yw gorffwys yn y gwely, llawer yfed digion a bwyta'n iach.

5 Mae pob cyffur yn ddrwg i chi. Ni allaf weld pwynt cymryd gwrthfotigau.

6 Rhoddodd fy meddyg wrthfotigau i mi eu cymryd am 10 diwrnod ond rwy'n teimlo'n well ar ôl 3 diwrnod, felly rwy'n mynd i roi'r gorau i'w cymryd nhw

7 Dw i wedi cael llond bol ar fy mhen tost a symptomau'r fflw. Rwy'n meddwl bod angen gwrthfotigau arna'i!

8 Dw i ddim yn cymryd gwrthfotigau oni bai fy mod i wir eu hangen nhw oherwydd efallai na fyddan nhw'n gweithio yn y dyfodol.

Atebion e-Bug Cyfnod Allweddol Pedwar i Athrawon

Gwers Dau: Micro-organebau: Microbau Defnyddiol

SW1 Microbau Defnyddiol a'u Priodweddau

Hefyd ar gael yn TS1

Enw'r Microb Defnyddiol	Math	Defnydd
Bacteria asid lactig	Bacteria	Cynhyrchu caws, iogwrt, kefir a kimchi.
<i>Saccharomyces</i>	Ffyngau	Gwneud bara, cwrw, seidr a gwin
Bacteria asid asetig (AAB)	Bacteria	Gweithgynhyrchu finegr traddodiadol
<i>Basilws thuringiensis</i> (Bt)	Bacteria	Plaladdwr organig
<i>Cyanobacteria</i>	Bacteria	Yn cael ei dyfu mewn pyllau agored neu ffotobio-adweithyddion ac yn cael ei fwydo â CO ₂ a maetholion eraill i gefnogi ffotosynthesis. Gellir echdynnu cydrannau celloedd i wneud biodiesel neu fioethanol (o garbohydradau, gyda chymorth <i>Sacharomyces</i>).

Gwers Tri: Micro-organebau: Microbau Niweidiol

SW1 Paru Clefydau: Taflen Waith

Hefyd ar gael yn TS1

1. Microb Heintus

Microb Heintus	Clefyd
Bacteria	Llid yr Ymennydd Bacteriol, Clamydia, MRSA
Firws	HIV, Brech yr Ieir, Y Ffliw, Y Frech Goch, Twymyn y Chwarennau
Ffyngau	Y Llindag

2. Symptomau

Symptomau	Clefyd
Dim symptomau	Clamydia, MRSA

Twymyn	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir, Llid yr Ymennydd Bacteriol
Brech	Llid yr Ymennydd Bacteriol, Brech yr leir, Y Frech Goch
Dolur Gwddf/Llwnc Tost	Ffliw, Twymyn y Chwarennau
Blinder	Twymyn y Chwarennau
Briwiau	HIV
Rhedlif Gwyn	Clamydia, Y Llindag

3. Trosglwyddiad

Trosglwyddiad	Clefyd
Cysylltiad Rhywiol	Clamydia, HIV, Y Llindag
Gwaed	Llid yr Ymennydd Bacteriol, HIV
Cyffwrdd	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir, MRSA
Anadlu	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir, Llid yr Ymennydd Bacteriol
Ceg i geg	Ffliw, Twymyn y Chwarennau

4. Atal heintiau

Atal	Clefyd
Golchi dwylo	Y Ffliw, y Frech Goch, Brech yr leir, MRSA, Llid yr Ymennydd Bacteriol
Gorchuddio'r geg a'r trwyn wrth beswch a thisian	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir, Llid yr Ymennydd Bacteriol
Defnyddio condom	Clamydia, HIV, Y Llindag
Dylid osgoi'r defnydd diangen o wrthfotigau.	MRSA, Y Llindag
Brechu	Brech yr leir, y Frech Goch, Y Ffliw

5. Trin Heintiau

Triniaeth	Clefyd
Gwrthfotigau	Clamydia, Llid yr Ymennydd Bacteriol, MRSA
Gorffwys yn y gwely	Brech yr leir, Twymyn y Chwarennau, Y Frech Goch, Y Ffliw
Cyffuriau gwrthff yngol	Y Llindag
Yfed digon	Brech yr leir, Twymyn y Chwarennau, Y Frech Goch, Y Ffliw

Pwyntiau i'w Nodi

Mae MRSA yn facteriwm sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfotigau, mae ganddo ymwrthedd i fethisilin a rhai gwrthfotigau eraill a ddefnyddir yn gyffredin. Mae ei statws ymwrthedd i'w briodoli i orddefnydd a chamddefnydd o'r gwrthfotig hwn a gwrthfotigau eraill.

Therapi gwrthfotig yw'r driniaeth o hyd; fodd bynnag, mae MRSA hefyd yn datblygu ymwrthedd i'r rhain hefyd.

SW2 Paru Clefydau: Taflen Waith Wahaniaethol

Hefyd ar gael yn TS2

1. Microb Heintus

Microb Heintus	Clefyd
Bacteria	Clamydia
Firws	Brech yr leir, Y Ffliw, Y Frech Goch,
Ffyngau	Y Llindag

2. Symptomau

Symptomau	Clefyd
Dim symptomau	Clamydia
Twymyn	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir
Brech	Brech yr leir, y Frech Goch
Dolur Gwddf/Llwnc Tost	Y Ffliw
Rhedlif Gwyn	Clamydia, Y Llindag

3. Trosglwyddiad

Trosglwyddiad	Clefyd
Cysylltiad Rhywiol	Clamydia, Y Llindag
Cyffwrdd	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir
Anadlu	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir
Ceg i geg	Y Ffliw

4. Atal heintiau

Atal	Clefyd
Golchi dwylo	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir
Gorchuddio'r geg a'r trwyn wrth beswch a thisian	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir
Defnyddio condom	Clamydia, Y Llindag
Dylid osgoi'r defnydd diangen o wrthfotigau.	Y Llindag
Brechu	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir

5. Trin Heintiau

Triniaeth	Clefyd
Gwrthfotigau	Clamydia
Gorffwys yn y gwely	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir
Cyffuriau gwrthff yngol	Y Llindag
Yfed digon	Y Ffliw, Y Frech Goch, Brech yr leir

SW3 Microbau Niweidiol: Llenwi'r Bylchau

Hefyd ar gael yn TS3

Clefyd	Pathogen	Trosglwyddiad	Symptomau	Atal	Triniaeth	Problemau
HIV/AIDS	Firws	Cyfnewid hylif corfforol (e.e. rhannu nodwyddau) a llaeth y fron gan fam heintiedig	Cynnar - symptomau tebyg i ffliw. Yn ddiweddarach - difrod i'r system imiwnedd i'r fath raddau fel bod rhywun yn dal heintiau'n hawdd	Dull atal cenhedlu rhwystrol wrth gael cyfathrach rywiol, sgrinio gwaed, peidio â rhannu nodwyddau a bwydo â photel. Dim brechlyn	Mae cyffuriau gwrth-retrofirysol yn caniatáu i ddiodefwrwr fyw bywyd hir iawn. Trawsblaniadau bôn-gelloedd (triniaeth newydd ar gamau cynnar o ran ymchwil a datblygiad)	Angheuol os na chaiff ei drin. Mewn rhai pobl, mae'r firws wedi dod yn ymwrthol i'r feddyginiaeth antiretroviral gan arwain at bryderon am ddyfodol triniaeth HIV
Y frech goch	Firws	Anadlu diferion o disiadau a pheswch	Brech goch a thwymyn	Brechlyn MMR	Dim triniaeth	Gall fod yn angheuol os oes cymhlethdodau
Salmonela	Bacteria	Bwyd wedi'i halogi neu fwyd wedi'i baratoi mewn amodau anhylan	Twymyn, crampiau yn yr abdomen, chwydu a dolur rhydd	Hylendid bwyd da	Gwrthfotigau a roddir i blant ifanc a phobl hen iawn i atal diffyg hylif difrifol.	Gall achosi problemau iechyd hirdymor, ond mae hyn yn anghyffredin. Mae'r bacteria yn datblygu ymwrthedd i rai gwrthfotigau
Gonorea	Bacteria	Caiff ei drosglwyddo drwy gyfathrach rywiol	Mae'r symptomau cynnar yn cynnwys rhedlif melyn/gwyrdd o ardaloedd heintiedig a phoen wrth droethi (pasio dŵr).	Condomau	Gwrthfotigau	Os na chaiff ei drin gall arwain at anffrwythlondeb, beichiogrwydd ectopig, a phoen yn y pelfis. Mae'r bacteria yn datblygu ymwrthedd i rai gwrthfotigau sy'n golygu eu bod yn anoddach eu trin
Malaria	Protist	Fector - mosgito	Symptomau tebyg i'r ffliw	Atal mosgitos rhag bridio ac mae angen trin y	Cyffuriau gwrth-falaria	Angheuol os na chaiff ei drin, a phlant dan 5 oed yw'r grŵp sydd fwyaf agored i niwed. Mewn rhai rhanbarthau, mae

				mosgitos â phryfleiddiad.		ymwrthedd i gyffuriau gwrth-falaria wedi dod yn broblem
COVID-19	Firws	Trosglwyddir drwy ddiferion	Symptomau tebyg i'r fflw	Gwisgo gorchudd wyneb, cadw pellter cymdeithasol, brechlyn COVID-19	Triniaethau symptomatig	Mae effeithiau hirdymor y clefyd yn anhysbys – mae ymchwil yn parhau yn y maes hwn

Gwers Pedwar: Atal a Rheoli Heintiau: Hylendid Dwylo a Hylendid Anadlol

SW1 Cwis Hylendid Dwylo

Sut allwch chi ledaenu microbau i eraill?

- Drwy gyffwrdd â nhw
- Drwy disian

Pam ddylen ni ddefnyddio sebon i olchi ein dwylo?

- Mae'n helpu i gael gwared ar ficrobau anweledig sy'n rhy fach i'w gweld gan y llygad noeth
- Mae'n torri drwy'r olew ar ein dwylo sy'n dal microbau

Pa un o'r rhain sydd DDIM yn un o'r 6 cham golchi dwylo?

- Breichiau

Pwy allai fod mewn perygl os na fyddwch chi'n golchi'ch dwylo'n iawn?

- Pob un o'r uchod

Pryd ddylen ni olchi ein dwylo?

- Ar ôl mwytho anifail anwes
- Ar ôl tisian neu beswch
- Ar ôl defnyddio'r ystafell ymolchi neu newid cewyn/clwt budr

Sut allwch chi atal microbau niweidiol rhag lledaenu?

- Defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael
- Golchi eich dwylo gyda dŵr a sebon am 20 eiliad

Ar ôl i ni disian i'n hancesi papur, dylem:

- Olchi ein dwylo ar unwaith
- Rhoi'r hances bapur yn syth yn y bin

Am ba mor hir ddylen ni olchi ein dwylo?

- 20 eiliad (hyd y gân pen-blwydd hapus ddwywaith)

SW2 Cwis Hylendid Anadlol

Sut allwch chi ledaenu microbau i eraill?

- Cyffwrdd
- Tisian
- Peswch

Ar ôl i ni disian i'n dwylo, dylem:

- Olchi ein dwylo

Os nad oes gennych hances bapur, y peth gorau wedyn yw tisian:

- I'ch llawes

Wrth disian, y ffordd orau o atal microbau rhag lledaenu yw:

- Defnyddio hances bapur i orchuddio'ch ceg a'ch trwyn wrth disian

Beth ddylech chi ei wneud gyda hances bapur ar ôl tisian i mewn iddi?

- Ei rhoi yn syth yn y bin

Beth allai ddigwydd os na fyddwn yn golchi ein dwylo ar ôl tisian i mewn iddyn nhw?

- Trosglwyddo microbau i bobl eraill
- Dim byd

Gwers Pump Atal a Rheoli Heintiau: Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol (STIs)

SW2 Camsyniadau am Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol

Hefyd ar gael yn TS1

Ni allaf gael haint a drosglwyddir yn rhywiol o ryw drwy'r geg

Anwir. Er bod y risg o gael haint a drosglwyddir yn rhywiol o ryw drwy'r geg yn llai yn gyffredinol na'r risg o gael rhyw drwy'r wain neu'r rhefr, mae risg o hyd. Yr heintiau sy'n cael eu trosglwyddo amlaf o ryw drwy'r geg yw herpes simplecs, gonorea a sifflis.

Gallaf gael herpes o sedd toiled

Anwir. Mae firws herpes simplecs (HSV) yn cael ei ledaenu dwy gysylltiad uniongyrchol â phlenni mwcaidd (y meinwe meddal sydd wedi'i leoli yn eich organau cenhedlu a'ch ceg) â dolur herpes, poer, neu secretiadau o organau cenhedlu rhywun â haint herpes. Fel arfer, mae herpes yn cael ei drosglwyddo drwy gusanu, neu ryw drwy'r geg, y rhefr neu'r wain.

Mae cael prawf am haint a drosglwyddir yn rhywiol yn boenus ac yn achosi embaras

Anwir. Mae llawer o brofion am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol mor gyflym a hawdd â rhoi sampl wrin. Gallai rhai profion hefyd gynnwys cymryd gwaed, archwiliad gweledol i chwilio am arwyddion o haint, neu ddefnyddio swab (fel ffon gotwm fach, meddal a chrwn) ar yr organau cenhedlu. Os oes angen swab, bydd rhai gwasanaethau yn cynnig yr opsiwn i chi wneud hynny eich hun. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn cynnal archwiliadau iechyd rhywiol bob dydd – ac nid ydynt yn ystyried bod prawf am haint a drosglwyddir yn rhywiol yn adlewyrchiad o'ch ymddygiad, ond yn hytrach yn ddewis iechyd cyfrifol.

Gall y bilsen eich amddiffyn rhag dal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol

Anwir. Mae'r bilsen atal cenhedlu yn effeithiol o ran atal beichiogrwydd. Nid yw'n effeithiol o ran amddiffyn rhag heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

Mae pobl sydd â llawer o bartneriaid rhywiol yn cael heintiau a drosglwyddir yn rhywiol

Anwir. Nid yw heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn gwahaniaethu yn erbyn nifer y partneriaid a all fod gan berson. Gall unrhyw un gael haint a drosglwyddir yn rhywiol, does dim ots os oes gennych un partner neu nifer o bartneriaid. Gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gael eu trosglwyddo drwy ryw heb ddiogelwch.

Bydd heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn diflannu ar eu pen eu hunain

Anwir. Mae'n annhebygol y bydd haint a drosglwyddir yn rhywiol yn diflannu ar ei ben ei hun. Cael prawf yw'r cam cyntaf o ran cael triniaeth am haint a drosglwyddir yn rhywiol Gallai gohirio triniaeth arwain at ganlyniadau hirdymor anfwriadol.

SW4 Bingo Iechyd Rhywiol - Cardiau Galwr (TS2)

STI - Ystyr STI yw Haint a Drosglwyddir yn Rhywiol

Amddiffyn - Y dull gorau o amddiffyn eich hun rhag haint a drosglwyddir yn rhywiol yw condomau

Rhyw drwy'r geg - Gall condomau eich helpu i aros yn ddiogel yn ystod rhyw drwy'r geg

Di-boen - Mae prawf iechyd rhywiol yn ddi-boen

Cyffredin - Mae'n eithaf cyffredin i rywun gael haint a drosglwyddir yn rhywiol heb wybod amdano

Symptomau - Y rhan fwyaf o'r amser, nid yw pobl sy'n cael heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn cael symptomau

Am ddim - Y rhan fwyaf o'r amser, mae profion iechyd rhywiol am ddim

Wrin - Y prawf mwyaf cyffredin ar gyfer pobl ifanc yw am haint a drosglwyddir yn rhywiol yw sampl wrin

Cyfrinachol - Mae profion am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn gwbl gyfrinachol

Cyflym – Mae cael prawf iechyd rhywiol yn gyflym

Triniaeth - Gellir trin y rhan fwyaf o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol heb unrhyw ddrama o gwbl

Gorau po gyntaf - Os oes gennych haint a drosglwyddir yn rhywiol, gorau po gyntaf y byddwch yn dechrau triniaeth

Archwiliad - Dylid cael prawf am haint a drosglwyddir yn rhywiol fel rhan o'ch archwiliad iechyd arferol

Rhyw - Os ydych chi'n cael rhyw, gallwch chi ei gadw'n ddiogel drwy ddefnyddio condom bob tro

Condomau - Condomau yw'r unig fath o amddiffyniad sy'n atal beichiogrwydd a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol

Profion - Os ydych chi'n cael rhyw, arhoswch yn ddiogel drwy gael profion rheolaidd am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol

Heb eu trin - Gall heintiau sy'n cael eu gadael heb eu trin arwain at ganlyniadau negyddol hirdymor. Gorau po gyntaf y byddwch yn dechrau triniaeth.

Unrhyw un - Gall unrhyw un gael haint a drosglwyddir yn rhywiol, ac efallai na fyddan nhw'n gwybod bod ganddyn nhw un! Dyna pam mae profi mor bwysig.

Cynllunio - Cynlluniwch gyda'ch partner rhywiol sut y byddwch yn amddiffyn eich hun rhag heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Gall hyn fod drwy ddefnyddio condom a chytuno i chi'ch dau gael eich profi.

Cysylltiad - Gall cysylltiad rhywiol arwain at ddal haint. Bydd profion a defnyddio condom yn lleihau'r risg hon.

Jeli iro - Gellir defnyddio jeli iro i wella'r profiad o gael rhyw. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio un sy'n seiliedig ar ddŵr i osgoi gwanhau condom.

Hawdd - Mae'r gair hwn weithiau'n cael ei ddefnyddio'n negyddol i egluro pam y gallai rhai pobl gael haint a drosglwyddir yn rhywiol. Ond nid yw hyn yn wir o gwbl. Gall unrhyw un gael haint a drosglwyddir yn rhywiol.

Y Bilsen - mae'r bilsen yn ddull atal cenhedlu sy'n gallu atal beichiogrwydd. Fodd bynnag, nid yw'n amddiffyn rhag heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

Torri - Os bydd condom yn torri yn ystod rhyw, ni fydd yn eich amddiffyn rhag heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

SW5 Cwis Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol

Sut y gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ledaenu?

- Rhyw drwy'r wain
- Rhyw rhesfol
- Rhyw drwy'r geg

Pwy all ddal haint a drosglwyddir yn rhywiol?

- Unrhyw un sy'n cael rhyw heb ddiogelwch

A oes gan heintiau a drosglwyddir yn rhywiol symptomau?

- Mae'n dibynnu ar yr haint

Y ffordd ORAU o atal trosglwyddo heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yw?

- Condomau

Noder: y ffordd orau o atal unrhyw drosglwyddiad o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yw ymatal.

Pa rai o'r canlynol sy'n heintiau a drosglwyddir yn rhywiol?

- Clamydia
- Gonorea

Gwers Saith: Atal a Rheoli Heintiau Brechiadau

SW1 Taflen Waith System Imiwedd

Hefyd ar gael yn TS2

1. Mae gennym ni amrywiol fathau o rwystrau corfforol i atal micro-organeb rhag ymosod ar y corff. Enwch dri o'r rwystrau hyn ac eglurwch sut maen nhw'n arbenigo mewn atal haint.

Unrhyw dri o'r canlynol: Croen, Cilia/blew yn y [trwyn/gwddf/ysgyfaint], Dagrau, Asid gastrig/stumog. Mae croen yn rhwystr ffisegol i'n corff. Gall pathogenau (micro-organebau sy'n achosi clefydau) fynd drwy'r rhwystr hwn pan fydd y croen yn cael ei dorri/yn llidiog/wedi'i niweidio
Dagrau: Mae gan y llygad ei dull glanhau ei hun drwy symud sylweddau drwy amrantu. Gall yr haen o leithder dros y llygad ddal sylweddau fel llwch a thrwy amrantu gall ei symud i gorneli'r llygad lle gellir ei dynnu oddi yno. Mae ein dagrau hefyd yn cynnwys ensymau o'r enw lysosym ac amylas, sy'n gallu lladd rhai bacteria gan ddarparu lefel arall o amddiffyniad. Asid gastrig yn y stumog: Mae'r asid yn ein stumog nid yn unig yn cynorthwyo gyda threulio bwyd ond gall hefyd ladd rhai pathogenau. Gall pathogenau nad ydynt yn cael eu lladd gan yr asid hwn achosi clefydau, fel Salmonela sy'n achosi gwenwyn bwyd. Cilia: Blew bach yw Cilia a geir ar hyd y

Ilwybrau anadlu yn ein trwyn a'n hysgyfaint. Mae'r blew hyn wedi'u lleoli wrth ymyl celloedd mwcosaid sy'n secretu mwcws. Gall y mwcws ddal gronynnau rydym yn eu hanadlu, gan gynnwys bacteria a firysau. Mae symudiad y blew yn y trwyn yn ysgogi tisian ac, yn yr ysgyfaint, gallant symud y mwcws i'r gwddf lle y gellir ei besychu neu ei lyncu.

2. Os na chaiff micro-organeb ei chlirio o'r corff gan yr ymateb cynhenid (ymateb ffagosyt), beth sy'n digwydd nesaf?

Efallai na fydd yr ymateb imiwn cynhenid bob amser yn clirio haint. Os bydd hyn yn digwydd, caiff yr imiwnedd caffaeledig/addasol ei actifadu. Gall y macroffagau sydd wedi cysylltu i'r antigen gludo'r antigen i safleoedd lle y gellir ysgogi ymateb imiwnedd caffaeledig. Pan fydd y macroffag sy'n cynnwys antigen yn mynd i mewn i'r system lymffatig mae'n symud tuag at yr organau lymffoid sy'n cynnwys y dduwg, y tonsiliau, adenoidau a lleiniau Peyer. Mae'r organau hyn yn gyfoethog mewn dau fath o gelloedd gwyn y gwaed arbenigol a elwir yn lymffocytau. Fe'u gelwir hefyd yn gelloedd B a chelloedd T, ac mae'r lymffocytau hyn wedi'u dosbarthu mewn safleoedd strategol ledled y corff yn barod i ymateb i antigenau. Mae yna hefyd lawer o gelloedd B a T yn cylchredeg yn y gwaed.

3. Mae *legionella niwmoffila* yn facteriwm sy'n achosi clefyd y llengfilwyr. Mewn bodau dynol mae'n cael ei amlyncu gan macroffagau ond mae'n gallu osgoi'r dulliau arferol y mae macroffagau yn eu defnyddio i'w ladd. Felly mae'n gallu byw y tu mewn i'r macroffag a defnyddio ei faetholion i aros yn fyw.

a) Pam na all celloedd B adnabod y *L. niwmoffila* antigenau?

Ni all celloedd B adnabod antigenau mewngellol wrth iddynt ymateb i antigenau rhydd. Mae antigenau rhydd i'w cael y tu allan i'n celloedd ein hunain neu ar wyneb organebau sy'n cylchredeg o amgylch ein corff. Mae *L. niwmoffila* yn bathogen mewngellol/micro-organeb ac felly nid yw'n dangos antigen rhydd i'r system imiwnedd.

b) Sut byddai'r system imiwnedd yn adnabod *L. niwmoffila* a sut y caiff ei waredu o'r corff?

Gellir arddangos yr antigen o *L. niwmoffila* ar foleciwl MHC ar wyneb y gell heintiedig. Mae hyn yn golygu y gall y system imiwnedd ei hadnabod. Mae moleciwlau MHC ar ein celloedd ein hunain yn cael eu hadnabod gan gelloedd T sytotocsig. Unwaith y cânt eu hadnabod, gall y gell T ryddhau cytocinau i ddylanwadu ar gelloedd eraill y system imiwnedd.

c) Pam y byddai rhywun â diffyg celloedd T yn fwy tueddol o gael haint micro-organeb mewngellol? Mae celloedd T yn hanfodol i ganfod haint mewngellol.

Mae celloedd T yn hanfodol i ganfod haint mewngellol. Hebddynt gall y system imiwnedd fethu ag adnabod a dinistrio'r pathogenau mewngellol hyn a byddent yn gallu atgynhyrchu a lledaenu i gelloedd eraill. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys: firysau, mycobacteria a bacteria meningococoid.

4. Ar ôl i'r ymateb imiwnedd caffaeledig gychwyn, gall celloedd plasma (lymffocytau) gynhyrchu gwrthgyrff. Eglurwch pam mai dim ond yn erbyn un antigen y bydd gwrthgyrff yn effeithiol.

Pan fydd y derbynyddion ar wyneb cell B yn adnabod antigenau rhydd, cânt eu hysgogi i ddod yn gelloedd plasma (lymffocytau) sy'n gwneud gwrthgyrff. Mae moleciwlau protein y gwrthgyrff yn cael eu plygu mewn ffordd sy'n ffurfio hollt 3 dimensiwn y gall dim ond antigenau o siâp cyfatebol rwympo wrtho.

5. Mae gan cytocinau lawer o rolau yn yr ymateb imiwnedd. O'r animeiddiad, a allwch ddisgrifio dwy ffordd y mae cytocinau yn helpu'r corff i frwydro yn erbyn haint?

Dau o'r canlynol: Gall cytocinau:

- Helpu i reoleiddio'r ymateb imiwn a denu macroffagau ychwanegol o lif y gwaed i safle'r haint.
- Nid yw celloedd T yn cynhyrchu gwrthgyrff, ond gallant secretu cytocinau sy'n dylanwadu ar gelloedd imiwn eraill.

- Pan fydd y celloedd T yn rhwymo i'r cymhlygyn MHC-antigen, mae'r celloedd T actifedig yn chwyddo, yn lluosogi ac yn seceretu cytocinau, a all wedyn effeithio ar gelloedd imiwnedd eraill gerllaw.
- Pan fydd antigen yn rhwymo i'r derbynnydd gwrthgorff ar gell B, mae ychydig o'r antigen hefyd yn mynd i fyny i'r gell ac yn cael ei gyflwyno i wyneb cell B gan foleciwl MHC. Mae'r cymhlygyn MHC-antigen hwn yn cael ei gydnabod gan gell T, fel arfer cell gynorthwyol T, sy'n secretu cytocinau. Yn yr achos hwn mae'r cytocinau yn cynorthwyo celloedd B i amlhau i ffurfio celloedd union debyg gan gynhyrchu'r un gwrthgorff.

6. Mae *Clostridium botulinum* yn facteriwm sy'n cynhyrchu'r niwrotocsin botulinum. Yr enw cyffredin ar hyn yn y diwydiant meddygol yw Botox. Y tocsin botulinum sy'n angheuol gan ei fod yn achosi parlys llipa mewn pobl ac anifeiliaid. *Clostridium botulinum* sy'n ei gynhyrchu, fodd bynnag nid yw'n cael ei ystyried yn beryglus ynddo'i hun. Gall y system imiwnedd adnabod tocsinau yn ogystal â micro-organebau.

a) Sut mae'r system imiwnedd yn adnabod ac yn clirio tocsinau?

Mae'r system imiwnedd yn defnyddio ymateb hylifol, sef imiwnedd addasol, i glirio tocsinau. Mae hyn yn golygu gwrthgorff yn rhwymo wrth y tocsin/antigen a gellir ei atal rhag symud a'i niwtraleiddio.

b) Pam na fyddai brechlyn ar gyfer y bacteriwm *Clostridium botulinum* yn cael ei ystyried mor effeithiol â brechlyn yn erbyn y tocsin botulinum?

Y tocsin yw'r gydran angheuol. Heb y tocsin nid yw'r bacteriwm yn cael ei ystyried yn beryglus. Mae brechlyn yn erbyn y tocsin yn effeithiol oherwydd gall ysgogi'r system imiwnedd i gynhyrchu gwrthgyrff yn erbyn y tocsin gan atal effeithiau niweidiol y clefyd.

7. Beth yw swyddogaeth y celloedd canlynol:

a) Celloedd T cytotoxic? Gall celloedd T cytotoxic adnabod antigenau mewngellol a lladd celloedd heintiedig.

b) Celloedd T Cynorthwyol? Mae celloedd T cynorthwyol yn ymwneud ag ymatebion sy'n ddibynnol ar gelloedd T. Gallant helpu i ysgogi celloedd B i amlhau a gallant hefyd eu helpu i ddod yn gelloedd plasma.

c) Celloedd plasma? Mae celloedd plasma yn deillio o gelloedd B. Ar ôl i gell B adnabod antigen rhydd gall ddod yn gell plasma. Mae'r celloedd plasma hyn yn gelloedd sy'n cynhyrchu gwrthgyrff ac felly maent yn fawr.

8. Eglurwch pam mae brechlynnau yn ataliol o ran amddiffyn rhag haint.

Mae brechlynnau'n dangos yr antigen ar gyfer haint penodol i'r system imiwnedd er mwyn cynhyrchu gwrthgyrff penodol heb i'r clefyd ddatblygu yn yr unigolyn. Os yw unigolyn yn dal y clefyd yn naturiol ni fydd brechlyn yn helpu gan y bydd y gwrthgyrff penodol eisoes wedi'u cynhyrchu. Mae brechlynnau'n darparu imiwnedd artiffisial ond bydd clefyd yn rhoi imiwnedd naturiol. Gall dal y clefyd fod yn beryglus felly mae brechu'n fwy diogel.

9. Eglurwch sut mae brechlyn yn arwain at ymateb cof yn y system imiwnedd.

Mae brechlyn yn cynnwys deunydd antigenig/antigenau ar gyfer micro-organeb/clefyd. Mae hyn yn arwain at gynhyrchu gwrthgyrff gan y celloedd plasma/celloedd B sy'n gyflenwol/cyfateb i'r antigen o'r brechlyn. Y gwrthgyrff a gynhyrchir mewn ymateb cof yw Ig/imiwnoglobwlin G, felly maen nhw'n aros yn y corff am amser hir. Mae rhai o'r celloedd B a'r celloedd T sy'n ymwneud ag adnabod yr antigen o'r brechlyn yn gwahaniaethu/newid i gelloedd cof a fydd yn cynyddu ymateb imiwn cyflymach y tro nesaf y deuir ar draws yr antigen.

10. Mae imiwnedd torfol yn digwydd pan fydd cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn cael eu brechu rhag clefyd. Beth allai ddigwydd pe bai'r cyfraddau brechu yn gostwng mewn poblogaeth ar gyfer y brechlynnau canlynol? (Cliw: meddyliwch am eu dulliau trosglwyddo. Mae'r frech goch yn cael ei

lledaenu drwy gyffyrddiad ac yn yr aer drwy ddefnyddu heintus gan bobl heintiedig, ac mae colera yn glefyd a gludir gan ddŵr).

a) Y frech goch. Pe bai cyfraddau brechu yn gostwng ar gyfer brechlynnau'r frech goch, gallai achosion achlysurol ddigwydd oherwydd gall y frech goch drosglwyddo rhwng unigolion heb eu brechu ac unigolion sy'n agored i gael y clefyd yn yr awyr neu drwy gysylltiad â pherson heintiedig.

b) Colera. Yn union fel y frech goch, gall cyfraddau brechu is ar gyfer colera mewn gwledydd lle mae colera yn bryder iechyd mawr, arwain at frigidau. Mae imiwnedd torfol yn dal yn bwysig; fodd bynnag, gan fod colera yn glefyd sy'n cael ei gludo gan ddŵr gall effeithio ar bobl sydd heb eu brechu hyd yn oed os ydyn nhw o gwmpas pobl sydd wedi cael eu brechu.

SW2 Camsyniadau am Frechlynnau

Hefyd ar gael yn TS3

1. Mae imiwnedd naturiol yn well nag imiwnedd caffaeledig. *Anwir. Mae imiwnedd naturiol yn digwydd pan fydd yn agored i'r clefyd gwirioneddol. Er y gall atal unigolyn rhag dal yr haint eto, gall yr unigolyn fynd yn sâl iawn, dioddef effeithiau iechyd hirdymor, neu mewn rhai achosion, risg o farwolaeth. Nid yw'r un risgau'n gysylltiedig ag imiwnedd caffaeledig drwy frechu.*

2. Bydd y nodwydd yn brifo. *Gwir. Efallai y byddwch yn teimlo pigiad, ond bydd hyn yn diflannu'n gyflym iawn. Weithiau bydd eich braich yn boenus ar ôl y brechiad, ond mae hyn oherwydd bod y corff yn gweithio'n galed i ladd neu ddileu holl organebau'r brechlyn. Y broses hon sy'n darparu imiwnedd unigol rhag clefydau yn y dyfodol.*

3. Byddwch yn cael sgil-effeithiau o'r brechiad. *Weithiau. Mae sgil-effeithiau'n brin iawn ac yn dibynnu ar y brechlyn. Gall braich boenus neu deimlo'n flinedig fod yn sgil-effaith gyffredin, gan fod y corff yn gweithio i gynhyrchu'r gwrthgyrff sydd eu hangen i ymladd yn erbyn y brechlyn. Mae sgil-effeithiau yn cael eu monitro'n ofalus iawn, ac ni fydd brechiad yn cael ei gymeradwyo os yw'r risgiau o sgil-effeithiau negyddol yn fwy na'r manteision.*

4. Mae'r clefydau rydyn ni'n cael ein brechu yn eu herbyn mor brin, felly ni fyddaf yn cael y clefyd. *Anwir. Mae'r clefydau rydyn yn cael ein brechu yn eu herbyn yn brin oherwydd brechlynnau. Mae brechu wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o glefydau angheuol gan gynnwys polio, y frech goch, a nawr, COVID-19, ynghyd â llawer o glefydau eraill. Fodd bynnag, os bydd pobl yn rhoi'r gorau i gael eu brechu ar gyfer y clefydau hyn, byddwn yn colli ein himiwnedd torfol a bydd nifer y bobl sydd wedi'u heintio yn cynyddu. Dyna pam ei bod mor bwysig cymryd y brechiadau a argymhellir gan eich meddyg, er mwyn sicrhau eich bod yn amddiffyn eich hun ac eraill.*

5. Nid yw brechlynnau'n ddiogel. *Anwir. Mae brechlynnau'n cael eu treialu'n drylwyr mewn labordai, ar anifeiliaid, ac ar bobl i wirio eu bod yn effeithiol ac i fonitro sgil-effeithiau. Rhaid i'r holl frechlynnau a ddarperir yn y DU gael eu cymeradwyo gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) sy'n sicrhau bod pob meddyginiaeth a brechlyn yn cyrraedd safonau uchel. Ar ôl eu cymeradwyo, mae swyddogion iechyd yn parhau i fonitro sgil-effeithiau brechlynnau a gallant ymateb yn gyflym os oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw brechlyn yn ddiogel mwyach.*

Trin Haint: Defnydd o Wrthfotigau ac AMB

Gwaith Paratoi Ymlaen Llaw ar gyfer yr Arbrawf Agar

Hefyd ar gael yn TS1

Mae'r gwaith paratoi canlynol ar gyfer 1 grŵp o 5 myfyriwr

Deunyddiau Angenrheidiol
Dysglau Petri
Asid hydroclorig
Creon cwyr/marciwr
Agar Sylfaenol
5 Rhesel tiwbiau profi
Tyllwr Corcyn
Ffenol Coch
20 Tiwb profi
Diferyddion tafladwy
Plât boeth

Paratoi Platiau Agar

1. Gwnewch 100ml o agar sylfaenol gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
2. Ar ôl ei oeri ychydig, ond cyn iddo droi'n solet, arllwyswch i 1 plât agar (i ddangos dim tyfiant). Pan fydd wedi'i gwblhau, ychwanegwch ddigon (~10 diferyn) 2 – 4% o Ffenol Coch i droi'r agar yn goch dwfn/oren tywyll a'i gymysgu'n dda.
3. Arllwyswch tuag 20ml i bob dysgl Petri a gadewch iddynt oeri.
4. Ar ôl iddynt droi'n soled, gwnewch 5 twll turio â bylchau cyfartal rhyngddynt ym mhob plât agar.
5. Rhowch y labeli Claf A, B, C a Ch ar bob dysgl Petri

Paratoi gwrthfotigau (tiwbiau profi).

1. Gosodwch resel tiwbiau profi gyda 5 tiwb profi ar gyfer pob claf. Labelwch bob tiwb profi gydag un o'r labeli canlynol a. Penisilin b. Metisilin c. Oxacillin ch. Vancomycin e. Amoxicillin
2. Trosglwyddwch 5ml o'r hydoddiannau canlynol i'r tiwb profi sydd wedi'i labelu'n briodol

Claf	Penisilin	Metisilin	Erythromycin	Vancomycin	Amoxicillin
A	Dŵr	Dŵr	Dŵr	Dŵr	Dŵr
B	10% HCl	5% HCl	1% HCl	0.05% HCl	5% HCl
C	Dŵr	Dŵr	1% HCl	0.05% HCl	Dŵr
Ch	Dŵr	0.05% HCl	0.05% HCl	0.05% HCl	Dŵr

DS: Mae'n hynod bwysig cael y crynodiadau cywir o HCl (gwrthfotigau) ar gyfer pob claf.

3. Trefnwch fainc waith ar gyfer y grŵp fel a ganlyn:

- a. Rhowch blât agar y claf priodol wrth ymyl pob rhesel gyfatebol o diwbiau profi mewn 4 gorsaf ar y fainc
- b. Darparwch ddiferydd ar gyfer pob tiwb profi
- c. Pren mesur gyda marciau mm
- ch. Efallai y bydd yn haws i fyfyrwyr roi plât agar pob claf ar ddarn o bapur gwyn a labelu'r papur wrth ymyl pob twll turio gydag enw'r gwrthfotig.

Sw1 Canlyniadau Arbrawf Agar

Hefyd ar gael yn TS2


Canlyniadau Platiau Agar

Sensitifrwydd organebau i wrthfotigau


Claf	Penisilin	Metisilin	Erythromycin	Vancomycin	Amoxicillin	Diagnosis
A	x	x	x	x	x	Ffliw
B	Y	Y	Y	Y	Y	Haint ar y Gwddf
C	x	Y	Y	Y	x	Haint clwyf Saffylococws
D	x	x	x	Y	x	

Y – sensitif – parth dim tyfiant i'w weld; X – ddim yn sensitif – dim parth i'w weld


Esboniad o Ganlyniadau Platiau Agar




Claf A: Mae'r ffliw yn cael ei achosi gan firws felly ni fydd unrhyw un o'r gwrthfotigau yn cael effaith gan mai dim ond ar heintiau bacteriol y gellir defnyddio gwrthfotigau.



Claf B: Mae heintiau dolur gwddf yn eithaf cyffredin ac yn gyffredinol yn gwella ar eu pen eu hunain. Mewn achosion difrifol, bydd y rhan fwyaf o wrthfotigau yn trin yr haint hwn. Penisilin yw'r gwrthfotig gorau ar gyfer yr haint hwn gan nad yw'r grŵp o facteria sy'n gyfrifol am yr haint (*Streptococws*) wedi datblygu mecanwaith ymwrthedd eto. Ni ddylid rhoi gwrthfotigau yn ddiangen ar gyfer dolur gwddf ysgafn gan fod 80% o ddolur gwddf yn cael ei achosi gan firysau a gall bacteria eraill ddatblygu ymwrthedd yn ystod triniaeth.



Claf C: Mae heintiau *Staphylococcus aureus* (MRSA) sydd ag ymwrthedd i Fethisilin yn dod yn fwyfwy anodd eu trin. Mae'r bacteria *S.aureus* hyn wedi datblygu ymwrthedd i Fethisilin, y gwrthfotig blaenorol a ffafriwyd. Vancomycin yw un o'r amddiffyniadau olaf yn erbyn y bacteria hyn a allai fod yn angheuol, fodd bynnag mae rhai organebau wedi'u canfod sydd hefyd ag ymwrthedd i'r gwrthfotig hwn.



Claf Ch: Penisilin oedd y gwrthfotig cyntaf a ddarganfuwyd ac a gynhyrchwyd, yn anffodus roedd llawer o bobl yn ei ystyried yn 'gyffur gwyrthiol' ac yn ei ddefnyddio i drin llawer o heintiau cyffredin. Arweiniodd hyn at y mwyafrif o facteria *Stafylococws* yn datblygu ymwrthedd i'r gwrthfotig hwn yn gyflym. Gan fod ampicillin yn deillio o benisilin, mae gan y bacteria *Staphylococcus* ymwrthedd i hyn hefyd. Methisilin yw'r cyffur a ffefrir ar gyfer yr haint *Staphylococcus* sensitif hwn

SW2 a SW3 Arbrawf Agar: Casgliadau

1) Nid yw gwrthfotigau'n gwella annwyd neu'r fflw, beth ddylai'r meddyg ei argymhell neu ei ragnodi i glaf A er mwyn iddo wella?

Dim ond ar gyfer trin heintiau bacteriol y gellir defnyddio gwrthfotigau; mae'r annwyd neu'r fflw yn cael ei achosi gan firws. Dylai'r meddyg ragnodi meddyginiaethau i helpu gyda'r symptomau.

2) Arferwyd defnyddio Methisilin i drin haint *Stafylococws*, beth fyddai'n digwydd i haint Claf C pe bai Methisilin wedi'i ragnodi iddo?

Dim byd. Mae gan MRSA ymwrthedd i wrthfotigau.

3) Pe bai gennych ryw faint o dabledi amoxicillin yn weddill yn eich cwpwrdd o haint blaenorol ar y frest, a fydech chi'n eu cymryd yn ddiweddarach i drin briw wedi'i heintio ar eich coes? Eglurwch eich ateb.

Na, ni ddylech byth ddefnyddio gwrthfotigau pobl eraill neu rai a roddwyd ar gyfer haint blaenorol. Mae yna lawer o wahanol fathau o wrthfotigau sy'n trin gwahanol heintiau bacteriol. Mae meddygon yn rhagnodi gwrthfotigau penodol ar gyfer salwch penodol ac ar ddos sy'n addas i'r claf. Gall cymryd gwrthfotigau rhywun arall olygu na fydd eich haint yn gwella.

4) Nid yw claf eisiau cymryd y flucloxacillin a gafodd ar bresgripsiwn ar gyfer ei glwyf heintiedig. *"Fe wnes i gymryd mwy na hanner y tabledi a roddodd y doctor i mi o'r blaen ac fe ddiflannodd yr haint am ychydig ond daeth yn ôl yn waeth."* Allwch chi egluro pam y digwyddodd hyn? Mae'n bwysig iawn gorffen cwrs o wrthfotigau, nid stopio hanner ffordd drwodd. Gallai peidio â chwblhau'r cwrs olygu na fydd yr holl facteria'n cael eu lladd a gallent ddatblygu ymwrthedd i'r gwrthfotig yn y dyfodol.

SW4 Gwrthfotigau Cywir neu Anghywir

Datganiad 1: Anghywir

Mae'r heintiau mwyaf cyffredin sy'n achosi peswch a thisian yn cael eu hachosi gan firysau a byddant yn gwella ar eu pen eu hunain drwy orffwys ac yfed digon. Nid yw gwrthfotigau yn effeithiol yn erbyn firysau.

Datganiad 2: Cywir

Dylid cymryd gwrthfotigau yn union fel y cynghorir gan eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Datganiad 3: Anghywir

Ni ddylech ddefnyddio gwrthfotigau pobl eraill nac unrhyw wrthfotigau dros ben.

Datganiad 4: Cywir

Mae'r heintiau mwyaf cyffredin sy'n achosi peswch a thisian yn cael eu hachosi gan firysau a byddant yn gwella ar eu pen eu hunain drwy orffwys ac yfed digon. Nid yw gwrthfotigau yn effeithiol yn erbyn firysau.

Datganiad 5: Anghywir

Gall gwrthfotigau helpu heintiau bacteriol difrifol fel niwmonia neu heintiau'r arenau/troeth.

Datganiad 6: Anghywir

Dylid cymryd gwrthfotigau yn union fel y cynghorir gan eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Datganiad 7: Anghywir

Nid yw gwrthfotigau yn effeithiol ar gyfer cur pen neu firysau, fel yr un sy'n achosi'r fflw.

Datganiad 8: Cywir

Os byddwch yn gorddefnyddio gwrthfotigau efallai na fyddant yn gweithio pan fyddwch wir eu hangen ar gyfer haint difrifol.